

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

#### Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau Out-of-hours Primary Care

**Q11 Gwenda Thomas:** Will the Minister make a statement on cross-boundary initiatives for the delivery of out-of-hours primary care? OAQ0865(HSS)

**C11 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau trawsffiniol ar gyfer cyflwyno gofal sylfaenol y tu allan i oriau? OAQ0865(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** Local health boards are required to establish robust mechanisms for the delivery of out-of-hours services across LHB boundaries. The objective is to ensure that patients can be seen in the most appropriate and convenient location. Overall, I believe this system is working well.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae'n ofynnol i fyrdau iechyd lleol sefydlu dulliau cadarn o gyflwyno gwasanaethau y tu allan i oriau ar draws ffiniau byrddau iechyd lleol. Y nod yw gofalu bod modd gweld cleifion yn y lle mwyaf addas a chyfleus. Yn gyffredinol, credaf fod y system hon yn gweithio'n dda.

#### Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl The Provision of Mental Health Services

**Q12 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on the provision of mental health services in Wales? OAQ0858(HSS)

**C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru? OAQ0858(HSS)

**Brian Gibbons:** Improving mental health services remains a key priority. We are committed to improving both in-patient and community mental health services, and improving the experience of all service users. In October 2005, we announced £5 million additional recurrent funding to help

**Brian Gibbons:** Mae gwella iechyd meddwl yn parhau i fod yn un o'n blaenoriaethau allweddol. Yr ydym wedi ymrwymo i wella gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned, a rhoi profiad gwell i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Ym mis Hydref 2005, cyhoeddwyd cyllid cylchol ychwanegol

implement the revised national service framework. gwerth £5 miliwn i helpu i weithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol newydd.

### **Amseroedd Aros yng Ngwent Waiting Times in Gwent**

**Q13 Lynne Neagle:** Will the Minister provide an update on waiting times in Gwent? OAQ0863(HSS)

**C13 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad i ni am amseroedd aros yng Ngwent? OAQ0863(HSS)

**Brian Gibbons:** In line with huge progress across Wales, trusts in Gwent have reported that they have no patients waiting more than 12 months for in-patient/day-case treatment, and have also met the target of no patients waiting more than 12 months for a first out-patient appointment.

**Brian Gibbons:** Yn unol â'r cynnydd aruthrol a wnaed ar hyd a lled Cymru, mae'r ymddiriedolaethau yng Ngwent wedi nodi nad oes unrhyw glaf yn aros mwy na 12 mis am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd a'u bod hefyd wedi cyrraedd y targed o sicrhau nad oes unrhyw glaf yn aros mwy na 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ0843(HSS), yn ôl.  
Question 14, OAQ0843(HSS), withdrawn.*

### **Y Strategaeth Arthritis Genedlaethol The National Arthritis Strategy**

**Q15 Owen John Thomas:** When does the Minister envisage the delivery of the national arthritis strategy? OAQ0841(HSS)

**C15 Owen John Thomas:** Pryd mae'r Gweinidog yn rhagweld y cyflwynir y strategaeth arthritis genedlaethol? OAQ0841(HSS)

**Brian Gibbons:** 'Service Development and Commissioning Directives for Arthritis and Chronic Musculoskeletal Conditions in Wales' was distributed widely for a three-month consultation period earlier this week. The final directives will be published following consideration of the consultation responses.

**Brian Gibbons:** Dosbarthwyd cyfarwyddedau datblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer arthritis ac anhwylderau cyhyrysgerbygol cronig yng Nghymru ar gyfer cyfnod ymgynghori o dri mis. Caiff y cyfarwyddedau terfynol eu cyhoeddi ar ôl ystyried ymatebion yr ymgynghoriad.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

#### **Hyrwyddo Opera The Promotion of Opera**

**Q11 David Melding:** Will the Minister make a statement on the promotion of opera in Wales? OAQ0765(CWS)

**C11 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo opera yng Nghymru? OAQ0765(CWS)

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** In 2005-06, the Welsh Assembly Government provided almost £4.5 million for opera performed by

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Yn 2005-06, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bron £4.5 miliwn ar gyfer perfformiadau gan

Welsh National Opera, Mid Wales Opera and Music Theatre Wales. Welsh National Opera also received very significant public money from Arts Council England. Support is given to projects and activities involving workshops for young singers across Wales.

Opera Cenedlaethol Cymru, Opera Canolbarth Cymru a Theatr Gerdd Cymru. Cafodd Opera Cenedlaethol Cymru swm sylweddol o arian cyhoeddus gan gyngor celfyddydau Lloegr hefyd. Rhoddir cymorth ariannol i brosiectau a gweithgareddau'n ymwneud â gweithdai i gantorion ifanc ar hyd a lled Cymru.

### **Gwella Meysydd a Chyfleusterau Criced Improving Cricket Pitches and Facilities**

**Q12 Laura Anne Jones:** Will the Minister make a statement on what is being done to improve cricket pitches and facilities in Wales? OAQ0751(CWS)

**C12 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i wella meysydd a chyfleusterau criced yng Nghymru? OAQ0751(CWS)

**Alun Pugh:** Through our Sports Council for Wales, more than £6 million in lottery funding has been invested to support cricket facilities, such as improving and establishing regional and national centres. A good example is the impressive national centre at Glamorgan.

**Alun Pugh:** Drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, cafodd dros £6 miliwn o arian loteri ei fuddsoddi i hybu cyfleusterau criced, fel gwella a sefydlu canolfannau rhanbarth a chenedlaethol. Mae'r ganolfan genedlaethol ym Morgannwg yn enghraifft dda.

### **Annog Cymryd Rhan yn y Celfyddydau Encouraging Arts Participation**

**Q13 Catherine Thomas:** Will the Minister make a statement on initiatives to encourage children and young people to participate in the arts? OAQ0758(CWS)

**C13 Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i annog plant a phobl ifanc i ymwneud â'r celfyddydau? OAQ0758(CWS)

**Alun Pugh:** We provided more than £440,000 in grants last year to a wide range of initiatives aimed at increasing the participation of children and young people in the arts. These included local authority youth arts pilot projects, the Prince of Wales Arts and Kids Foundation, Splash Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Valleys Kids and National Youth Arts Wales.

**Alun Pugh:** Y llynedd, cafodd cynlluniau i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau dros £440,000 gennym ar ffurf grantiau. Yr oedd y rhain yn cynnwys cynlluniau peilot celfyddydol i bobl ifanc gan awdurdodau lleol, Sefydliad y Celfyddydau a Phlant Tywysog Cymru, Splash Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Plant y Cymoedd a Chelfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru.

### **Nant Gwrtheyrn**

**C14 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol canolfan iaith Nant Gwrtheyrn? OAQ0808(CWS) [W]

**Q14 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on the future of the Welsh language centre at Nant Gwrtheyrn? OAQ0808(CWS) [W]

**Alun Pugh:** Bydd Nant Gwrtheyrn yn elwa ar y trefniadau newydd sydd i'w mabwysiadu yn dilyn ailstrwythuro Cymraeg i oedolion. Bydd y ganolfan yn gweithio'n agos â

**Alun Pugh:** Nant Gwrtheyrn will benefit from the new arrangements to be adopted following the restructuring of Welsh for adults. The centre will work closely with

Phrifysgol Bangor, sef y ganolfan iaith sy'n gyfrifol am gynllunio'r ddarpariaeth ac am arwain y datblygiadau yn y maes hwn yn rhanbarth y gogledd.

Bangor University, which is the dedicated language centre responsible for planning provision and leading on developments in this field in the north Wales region.

**Amgueddfa Wlân Cymru  
The National Wool Museum**

**C15 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y gweinidog ddatganiad am Amgueddfa Wlân Cymru yn Nhre-fach Felindre? OAQ0807(CWS) [W]

**Q15 Rhodri Glyn Thomas:** Will the Minister make a statement on the National Wool Museum in Dre-fach Felindre? OAQ0807(CWS) [W]

**Alun Pugh:** Ailagorais Amgueddfa Wlân Cymru yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2004 wedi iddi fod ar gau am ddwy flynedd er mwyn cynnal proses adnewyddu gwerth £2.6 miliwn. Daeth dwywaith nifer yr ymwelwyr i'r amgueddfa yn 2004-05 nag yn 2000-01. Llongyfarchaf yr amgueddfa ar gyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr amgueddfa Ewropeaidd y flwyddyn 2006.

**Alun Pugh:** I performed the official re-opening of the National Woollen Museum in July 2004 following a two-year closure for a £2.6 million-worth refurbishment. Visitor numbers doubled in 2004-05 in comparison with 2000-01. I congratulate the museum on reaching the shortlist of the European Museum of the Year Award 2006.